Adroddiad Cynghorydd Ebrill 2015

Digwyddiadau

Dydd Mawrth (Mawrth 31) 1.30 Taith Gerdded o'r Felin Sgwrsio efo Gareth Roberts
Dydd Llun PASG (Ebrill 6) Hwyl y Pasg a'r Ras Hwyaid
Mai 9 Dawns Fai Y Felin Neuadd Goffa (Cylch Meithrin)

Tyllau ar y ffyrdd : rwyf wedi bod yn siarad efo swyddogion Cyngor Gwynedd ac mae nhw wedi addo cynnal arolwg o Ffordd Tafarngrisiau a Lon Llwyn i weld beth sydd angen ei wneud i'r tyllau mawr sydd yno.
Ffordd Osgoi Bontnewydd/Caernarfon: Mae'n bwysig ein bod ein cofnodi ein pryder am y bwriad i gau'r ffordd lawr i Griffiths Crossing o Fferm Crug. Dan y cynlluniau presennol, does dim cylchdro yn Tyddyn Hen. Mwy o wybodaeth yma: http://www.cbbypass.co.u/index Rwyf yn cydweithio efo Delsol, Crug ac eraill ar hyn. Rwyf wedi cael ar ddeall fod y peirianwyr yn ail-edrych ar y sefyllfa. Ond gorau po fwyaf fydd yn cofnodi eu gwrthwynebiad. Mae gennyf gyfarfod efo Delsol wythnos yma.
Brecwast Busnes: Cafwyd achlysur braf iawn gyda'r Swellies yn llawn o bobl busnes Y Felinheli ddaeth draw i glywed am Y Gymraeg mewn busnes.
Llwybr Rowen: Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i wneud yn cais am grant i wella'r llwybr lawr i'r traeth.
Ffilm: mae Grŵp Iaith Y Felinheli yn gwneud ffilm am bobol ifanc a'r Gymraeg. Bydd yn ymddangos ar wefan www.felinheli.org cyn hir.
Parc Cychod Lan y Mor : Mae'r Cyngor Cymuned wedi cysylltu efo Cyngor Gwynedd i geisio cael trwshio'r rheiliau sydd wedi torri.
Cynllun Atal Llifogydd: Mae'r Cyngor Cymuned yn trafod cynllun efo'r Clwb Hwylio a Chyngor Gwynedd i ddiogelu Lan y Mor rhag llifogydd i'r dyfodol.
Parcio: Cafwyd cyflwyniad gan Y Parchedig Ganon Robert Townshend yn y Cyngor Cymuned pryd dywedodd ei fod am drefnu cyfarfod i drafod y posibiliadau o ddefnyddio tir ger Neuadd yr Eglwys ar gyfer parcio cymunedol.
Neges i gynhyrchwyr lleol gan Gwyl Y Felin : Bydd y Noson Cynnyrch Lleol yn cael ei chynnal eto eleni yn ystod wythnos Gwyl Y Felin. Nos Iau, Gorffennaf 2. Os oes gennych ddiddordeb mewn dod a stondin draw, cysylltwch a ni plis!

Materion Tai i'r Dyfodol :Mae Cyngor Cymuned Y Felinheli wedi croesawu'r ffaith na fydd unrhyw stadau tai newydd yn cael caniatâd yn Y Felinheli os derbynnir y cynllun defnydd tir newydd, sef y Cynllun Datblygu Lleol.

Rydym wedi bod yn dadlau ers blynyddoedd fod y pentref yn dioddef yn sgil datblygiadau tai nad oes eu hangen i ddiwallu'r angen lleol.

· Mae'r Cynllun newydd yn dangos nad oes ymestyn i ffin y pentref.

· Mae'n dangos fod 51 o dai wedi eu codi rhwng 2011 a 2014 ac fod 69 cais cynllunio arall wedi eu cymeradwyo ond nad yw'r tai wedi eu codi eto.

· Mae'r cynllunwyr yn barnu fod hyn yn golygu nad oes angen clustnodi tiroedd newydd. Newyddion da i bawb sy'n poeni am broblemau traffig a dyfodol y Gymraeg!

· Ond os bydd prawf fod pobol leol angen tai newydd, fe ellid caniatáu codi tai fforddiadwy ar ffin y pentref os derbynnir y Cynllun newydd. Mae hyn hefyd yn newyddion da.

Mae hefyd meddwl am ffyrdd eraill o ddiwallu'r angen lleol am dai ac fe gynhaliwyd cyfarfod llwyddiannus i drafod materion tai yn yr ysgol yn ddiweddar.

Yn sgil y cyfarfod, fe fyddwn yn bwrw mlaen i drafod sut i wireddu'r weledigaeth o i sicrhau fod y gymuned yn perchnogi a rheoli tai yn lleol ac yn cydlynu unrhyw ddatblygiadau i gwrdd a'r angen tai lleol.

Cyfrifoldebau newydd: Cefais fy mhenodi fel aelod o Fwrdd Rheoli Gisda sy'n gweithio efo pobol ifanc bregus. Rwyf hefyd wedi fy ethol fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Syr Hugh Owen. Rwyf wedi ymddeol fel Trysorydd y Felin Sgwrsio ac yn falch iawn fod un o ddysgwyr y pentref, Nathan Abrams wedi cychwyn ar y gwaith. Pob lwc Nathan!

Councillors' Report April 2015

Events

Tuesday (March 31) Walk from FelinSgwrsio (1.30) with Gareth Roberts
Easter Monday (April 6) Easter Fun and Duck Race (12).
May 9 May Dance at Memorial Hall (CylchMeithrin)

Holes in the road: I have been talking to Gwynedd Council officers and they have now agreed to survey Tafarngrisiau Road and Bush Road to see what needs to be done to the large holes.
Bontnewydd/Caernarfon by-pass: It's important that we register our concerns about the intention to close off the road down to Griffiths Crossing from Crug Farm. Under the present plans, there is no roundabout at Tyddyn Hen. More information here: http://www.cbbypass.co.u/index I am working with Delsol, Crug and others. I understand that engineers are re-considering. But please register your objection on the website. I have a meeting with Delsol this week.
Business Breakfast: A successful event was held with the Swellies full of local business people who came along to learn about the support that's available to take full advantage of the use of the Welsh language in business.
Rowen Path: Gwynedd Council has agreed to apply for a grant to improve the path down to the beach.
Film: The Felinheli Language group is making a film about young people and the Welsh language. It will appear on the website www.felinheli.org before long.
Beach Road Dinghy Park: The Community Council has contacted Gwynedd Council to ask for the railings to be repaired.
Flood Prevention scheme: The Community Council is discussing a scheme with the Sailing Club to protect the Bach area from further flooding.
Parking: A presentation was given by Rev Canon Robert Townshend at the last Community Council meeting when he promised to arrange a meeting to discuss the possibility of using the land near the Church House for community parking.
Message to local producers from Felinheli Festival: The Local Produce Night will be held again this year during Festival Week. Thursday, July 2. Please contact if you would like to have a stall.
Future Housing matters: Y Felinheli Community Council has welcomed the news that no new housing estates would be permitted in Y Felinheli if the new land use plan, the Joint Local Development Plan, is passed.
We have pointed out for many years that the village suffers from housing developments which are not needed to meet local demand.

- The present development boundary is not being extended
- During 2011-14, 51 new houses or units were completed and there is planning permission for a further 69 which have not been built.
- Planners feel that no new land needs to be designated for open market housing estates in Felinheli.

Good news for all of us who worry about parking and traffic problems and about the decline of the Welsh language locally.

- But if there is proven local need, affordable housing could be built on the edge of the village. This is also good news.
- We also need to think of other ways of responding to local housing needs and a successful meeting was held to discuss housing matters recently.

As a result of this meeting, we will be moving ahead to discuss how to bring about the vision of ensuring that the community takes ownership and manages a supply of housing locally and co-ordinates any developments to meet local housing demand.
New responsibilities: I have been appointed a member of the Gisda Management Board (working with young vulnerable people.) I have also been elected Chairman of YsgolSyr Hugh Owen governors. I have retired as Treasurer of FelinSgwrsio and am very glad that one of our Welsh learners, Nathan Abrams, has taken up the post. All the best Nathan!